

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Nodiadau Cyfarfodydd

Dyddiad y cyfarfod
Presennol

1af Mehefin, 2023

John Jones (Cadeirydd), Richard Parry (Bryncir), Michael Jones, Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Huw Pritchard, Sarah Jones, Raymond Jones (Pentrefelin), Richard Williams (Prenteg), Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Gwenno Emlyn Huws, Jess Williams (Penmorfa), June Jones (Cyngorydd Sir Cyngor Gwynedd)

Ymddiheuriadau

Edward Evans (Garndolbenmaen), Iddon Edwards (Penmorfa), Gwilym Evans (Prenteg), Stephen Churchman (Cynghorwr Sir Cyngor Gwynedd),

Datgan Buddiant

Raymond Jones - Eitem 13

Penderfyniadau

Rheolau Claddu:

Mae'r rheolau claddu ar gyfer ein mynwentydd wedi eu diweddarau. Mae'r rheolau claddu a'r ffioedd claddu diweddaraf ar gael ar ein gwefan www.dolbenmaen.cymru. Clerc i drefnu bod crynodeb o'r rheolau i'w rhoi fyny yn y mynwentydd.

Rheolau Sefydlog:

Penderfynwyd gynnal cyfarfod llawn ychwanegol o'r Cyngor ar nos Fercher yr 20fed o Fedi am 7 yr hwyr yng Nghanolfan Cymdeithasol Golan. Yn y cyfarfod byddwn yn mynd dros y rheolau sefydlog diweddaraf ac yn

penderfynu os am eu derbyn a'i
pheidio.

Cais Cynllunio:

NP2/16/468 Beudy'r Garth, Cwmystrac
Gosod uned trin carthion preifat. Dim g
gymerodd
Sarah Jones unrhyw ran yn y drafodaet